# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ... 1
Hanes adolygu a chymeradwyo ... 3
Cyflwyniad ... 4
Rolau a chyfrifoldebau ... 4
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ... 4
Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ... 5
Egwyddorion cydweithredu ... 6
Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd ... 7
Cyfnewid Gwybodaeth ... 7
Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau ... 8
Llywodraethu ... 8
Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu ... 9
Llofnodwyd ... 9
Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth ... 10
Atodiad B – Manylion Cyswllt ... 10
Atodiad C – Protocol Gweithredu ar y Cyd ... 11
1. Llwybrau cyfathrebu allweddol rhwng AGIC a HCPC ... 12
2. Pryd a sut y caiff gwybodaeth ei rhannu ... 12

## Hanes adolygu a chymeradwyo

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 1.0 |
| **Cytunwyd yn ffurfiol gan** | AGIC: Kate Chamberlain<br>HCPC: Marc Seale |
| **Dyddiad y'i cytunwyd** | Ionawr 2018 |
| **Fersiwn** | 2.0 |
| **Dyddiad y'i crëwyd** | Ionawr 2020 |
| **Awduron** | AGIC: Joseph Wilton<br>HCPC: Eva Hales |
| **Dyddiad y'i cytunwyd** | Ionawr 2021 |
| **Cytunwyd yn ffurfiol gan** | AGIC: Alun Jones<br>HCPC: John Barwick |
| **Dyddiad adolygu** | Ionawr 2023 |

## Cyflwyniad

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw pennu fframwaith er mwyn cefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).

2. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o'r gwaith o gynnal system reoleiddio effeithiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru a Lloegr, sy'n hybu diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.

3. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ond yn berthnasol i'r gwaith o reoleiddio gofal iechyd yng Nghymru. Nid yw'n drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC na HCPC ac nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol rwymol; ei ddiben yw diffinio'r cytundeb ar y cyd rhwng y ddau sefydliad a nodi camau gweithredu cyffredin.

4. Fel rhan o'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gellir sefydlu cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth, neu brotocolau cydweithio). Bydd y cyfryw gytundebau yn bodoli ar wahân i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

5. Mae AGIC a HCPC yn ymrwymedig i ddilyn egwyddorion system reoleiddio effeithiol ar gyfer gofal iechyd, fel y'u nodir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol: [http://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/thought-paper/right-touch-regulation-2015](http://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/thought-paper/right-touch-regulation-2015)).

## Rolau a chyfrifoldebau

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

6. AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
   - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
   - Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
   - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
   - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
   - Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008;

- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.

7. Mae blaenoriaethau AGIC fel a ganlyn:
   - rhoi sicrwydd: cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal;
   - hybu gwelliant: annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da;
   - dylanwadu ar bolisi a safonau: defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

8. Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym.

9. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath.

**Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal**

10. Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) yn rheoleiddio 15 o broffesiynau:

| | |
|---|---|
| Ciropodyddion / podiatryddion | Ffisiotherapyddion |
| Deietegwyr | Radiograffyddion |
| Fferyllwyr teclynnau clyw | Seicolegwyr ymarferol |
| Gwyddonwyr clinigol | Prosthetyddion / Orthotyddion |
| Gwyddonwyr biofeddygol | Parafeddygon |
| Therapyddion celf | Orthoptyddion |
| Therapyddion galwedigaethol | Ymarferwyr adrannau llawdriniaethau |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | |

11. Mae cyfrifoldebau a swyddogaethau HCPC wedi'u nodi yng Ngorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001 (y Gorchymyn). Mae'r Gorchymyn yn diogelu un teitl dynodedig neu fwy ar gyfer pob un o'r proffesiynau perthnasol a rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio un o'r teitlau hynny fod wedi'i gofrestru â HCPC. Mae camddefnyddio teitl yn drosedd.

12. O dan y Gorchymyn, prif swyddogaethau HCPC yw pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad ar gyfer aelodau o'r proffesiynau perthnasol a sicrhau y caiff y safonau hynny eu cynnal. Gwna hyn drwy wneud y canlynol:
    - gosod safonau, gan gynnwys Safonau Hyfedredd, Safonau Ymddygiad, Perfformiad a Moeseg a Safonau Addysg a Hyfforddiant;
    - cymeradwyo rhaglenni addysg a chymwysterau sy'n cyrraedd ei safonau;
    - cynnal cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n meddu ar gymwysterau priodol;
    - ymchwilio i gwynion am eu haddasrwydd i ymarfer a'u dyfarnu.

13. Prif amcan HCPC wrth arfer ei swyddogaethau fydd diogelu iechyd a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau personau cofrestredig a phobl y mae angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau hynny.

14. Hefyd, mae dyletswydd ar HCPC i gydweithredu â chyrff sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, neu gyrff sy'n cydgysylltu'r gwaith o'u rheoleiddio, cyrff sy'n rheoleiddio gwasanaethau iechyd, a chyrff sy'n darparu, yn goruchwylio neu'n rheoli gwasanaethau iechyd neu addysg, ymhlith cyrff eraill.

## Egwyddorion cydweithredu

15. Mae AGIC a HCPC yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio.

16. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGIC a HCPC yw y caiff eu cydberthynas waith ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:
    - yr angen i wneud penderfyniadau sy'n diogelu ac yn hybu gofal iechyd o ansawdd uchel ac sy'n hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion;
    - bod yn gwbl agored a sicrhau tryloywder rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol nac yn briodol;
    - parch at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall;
    - yr angen i ddefnyddio adnoddau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynu a rhannu gwybodaeth yn briodol;
    - yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad;
    - ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw achos o orgyffwrdd neu fylchau a nodwyd yn y fframwaith rheoleiddio a chyfrifoldebau rheoleiddio.

17. Mae AGIC a HCPC hefyd yn ymrwymedig i reoleiddio tryloyw, atebol, cymesur a chyson sydd wedi'i dargedu (sef egwyddorion rheoleiddio gwell).

## Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd

### Cyfnewid Gwybodaeth

18. Pan ddaw AGIC neu HCPC i wybod am bryder y mae'n credu ei fod yn rhan o gylch gwaith y llall, bydd yn rhannu'r pryder a'r wybodaeth berthnasol â'r sefydliad dan sylw ar y cyfle cynharaf, gan ddilyn y broses a amlinellir yn y Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yn Atodiad C. Er budd diogelu neu amddiffyn cleifion, ni fydd y sefydliad sy'n atgyfeirio'r pryder yn aros nes bydd ei ymchwiliad ei hun wedi dod i ben.

19. Yn benodol, bydd AGIC yn rhannu'r canlynol ag HCPC neu'n atgyfeirio'r canlynol ato:
    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol sy'n hysbys am unrhyw un sydd wedi'i gofrestru â HCPC a all fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd i ymarfer, neu am unrhyw unigolion pan amheuir eu bod yn defnyddio teitl a ddiogelir (neu'n awgrymu eu bod yn aelod o un o'r proffesiynau a reoleiddir gan HCPC) er nad ydynt wedi'u cofrestru â HCPC.
    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol sy'n hysbys am sefydliad gofal iechyd a all fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu i fyfyrwyr o unrhyw rai o'r proffesiynau a reoleiddir gan HCPC.
    - Unrhyw wybodaeth am unigolyn sy'n honni ei fod yn aelod o unrhyw un o'r proffesiynau a reoleiddir gan HCPC os oes gan AGIC reswm dros gredu nad yw'r unigolyn hwnnw ar Gofrestr HCPC.
    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol, megis methiannau difrifol mewn perthynas ag arweinyddiaeth broffesiynol, goruchwylio, rheoli llwyth achosion, hyfforddiant, diogelu neu ffactorau cysylltiedig eraill a allai effeithio ar y gwaith cyffredinol o ddarparu gofal neu wasanaethau mewn sefydliad gofal iechyd lle mae unrhyw un sydd wedi'i gofrestru â HCPC yn ymarfer.

20. Yn benodol, bydd HCPC yn atgyfeirio'r canlynol at AGIC:
    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol sy'n hysbys am sefydliad gofal iechyd lle mae rhywun sydd wedi'i gofrestru â HCPC yn ymarfer neu'n cael ei hyfforddi sy'n rhan o gylch gwaith AGIC;
    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol sy'n hysbys am sefydliad gofal iechyd sy'n rhan o gylch gwaith AGIC mewn perthynas ag addasrwydd ei arferion goruchwylio a/neu amgylcheddau dysgu i fyfyrwyr o unrhyw rai o'r proffesiynau a reoleiddir gan HCPC;
    - Gwybodaeth am unrhyw ymchwiliadau a gynhelir ganddo sy'n codi pryderon ynghylch gwaith tîm gwael, arweinyddiaeth, problemau systemig mewn perthynas â chadw cofnodion, systemau arfarnu a methiannau sefydliadol cyffredinol mewn sefydliad gofal iechyd sy'n rhan o gylch gwaith AGIC;
    - Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol sy'n hysbys am rywun sydd wedi'i gofrestru â HCPC ac sy'n gweithio fel Rheolwr Cofrestredig mewn sefydliad gofal iechyd sydd wedi'i gofrestru ag AGIC a all fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd i gyflawni ei swyddogaethau yn y lleoliad hwnnw.

21. Mewn achosion o'r fath, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur, a chaiff y wybodaeth ei rhannu’n gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl. Caiff y manylion cyswllt yn Atodiad B eu defnyddio i godi a rhannu pryderon.

22. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac unrhyw brotocol gweithio ar y cyd a all gael ei ddatblygu, yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003; adran 76 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; Deddf Safonau Gofal 2000 a holl ddeddfwriaeth AGIC a HCPC sy'n ymwneud â'r materion hyn, a'u Codau Ymarfer, fframweithiau neu bolisïau priodol eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion gwybodaeth.

23. Mae AGIC a HCPC yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb.

24. Ategir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth yn Atodiad C sy'n nodi'r trefniadau manwl ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng y partïon.

## Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

25. Bydd AGIC a HCPC yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau a gynllunnir i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau a chynigion drafft.

26. Bydd AGIC a HCPC yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu gohebiaeth neu ddatganiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.

27. Bydd AGIC a HCPC yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac ni fyddant yn ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi a drefnwyd.

## Llywodraethu

28. Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a HCPC. Disgrifir y cyswllt hwn, ac unrhyw waith mewn partneriaeth, yn Atodiad A.

29. Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a HCPC ei ddatrys ar lefel gweithio. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiad sy'n


foddhaol i'r ddau sefydliad. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys unrhyw anghydfod o fewn amser rhesymol.

## Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu

30. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â chydberthynas waith y ddau sefydliad.

31. Nid oes cyfyngiad amser i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau mewn grym oni fydd angen newid yr egwyddorion a ddisgrifiwyd neu os byddant yn amherthnasol bellach. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob blwyddyn gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, ond gellir hefyd ei adolygu ar fyrder ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

**Llofnodwyd**



**Alun Jones**

Prif Weithredwr Dros Dro

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 13/01/2021



**John Barwick**

Prif Weithredwr Dros Dro, Swyddog Cyfrifyddu a Chofrestrydd

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Dyddiad: 24/09/2020

## Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth

Gall AGIC a HCPC, drwy gytundeb, wneud gwaith rheoleiddio neu waith strategol ar y cyd sy'n berthnasol i bwerau statudol y naill gorff a'r llall. Os a phan fydd AGIC a HCPC yn penderfynu gwneud gwaith ar y cyd, caiff datganiad cydweithio ei lunio yn nodi'r manylion a'r trefniadau penodol ar gyfer y gwaith hwnnw. Drwy gydol gwaith o'r fath, bydd AGIC a HCPC yn cadw ac yn arfer eu pwerau statudol eu hunain. Gallai'r gwaith hwn gynnwys y canlynol:

- adolygiadau ar y cyd o wybodaeth am sefydliad gofal iechyd;
- ymweliadau â safle sefydliad gofal iechyd;
- llunio dogfennau ac adroddiadau ar y cyd a chydgysylltu unrhyw waith dilynol i gynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion;
- llunio adroddiadau ymchwil a dadansoddi ar y cyd;
- ymatebion cyhoeddus ar y cyd i ddatblygiadau polisi allanol;
- canllawiau neu ddatganiadau sefyllfa ar y cyd.

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol rhannu gwybodaeth a digwyddiadau, mae rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGIC a HCPC:

### Uwchgynhadledd Gofal Iechyd

Mae AGIC yn cynnal Uwchgynhadledd Gofal Iechyd bob chwe mis, sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth am bob Bwrdd Iechyd. Mae cyfranogwyr yn cynnwys rheoleiddwyr proffesiynol, cyrff perfformiad a'r Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae HCPC yn aelod gweithredol o'r Uwchgynhadledd hon a gall gyflwyno ei ganfyddiadau i AGIC a'r cyfranogwyr eraill.

### Concordat Cymru

Mae AGIC a HCPC yn aelodau o fforwm Concordat Cymru o gyrff sy'n arolygu, yn rheoleiddio ac yn archwilio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae AGIC a HCPC wedi cytuno i gydweithio â'r cyrff eraill er mwyn gwella gwasanaethau i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr gan sicrhau na fydd staff rheng flaen yn wynebu baich diangen yn sgil adolygiadau allanol.

## Atodiad B – Manylion Cyswllt

| **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** | **Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal** |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ | Park House<br>184-186 Kennington Park Road<br>London<br>SE11 4BU |
| Ffôn: 0300 062 8163 | Ffôn: 0845 300 6184 |

Bydd enwau cyswllt AGIC a HCPC fel a ganlyn:

| **Prif Swyddogion Gweithredol** | |
|---|---|
| **Alun Jones**<br>*Prif Weithredwr Dros Dro*<br>Alun.Jones39@gov.wales | **John Barwick**<br>*Prif Weithredwr a Chofrestrydd*<br>john.barwick@hcpc-uk.org |
| **Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
| **Joseph Wilton**<br>*Pennaeth Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg*<br>joseph.wilton@gov.wales<br>Ffôn: 0300 025 2663 | **Eva Hales**<br>*Rheolwr Sicrwydd a Datblygu*<br>eva.hales@hcpc-uk.org<br>Ffôn: 0207 840 9742 |
| **Mewnflwch Pryderon** | |
| concerns.hiw@gov.wales<br>Ffôn: 0300 062 8163 | |

## Atodiad C – Protocol Gweithredu ar y Cyd

Mae'r protocol hwn yn nodi manylion y ffordd y bydd AGIC a HCPC yn cydweithio i roi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith yn y meysydd canlynol:

1. Llwybrau cyfathrebu allweddol rhwng AGIC a HCPC;
2. Pryd a sut y caiff gwybodaeth ei rhannu;

Bwriedir i'r protocol hwn weithio ochr yn ochr â phrosesau sydd eisoes ar waith ym mhob sefydliad ac nid ar wahân iddynt a, lle y bo'n berthnasol, mae'n adlewyrchu'r rhain er budd y staff a'r rheolwyr.

Yr unigolion ym mhob sefydliad sy'n gyfrifol am y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn goruchwylio'r ffordd y caiff y protocol ei roi ar waith. Nid oes cyfyngiad amser ar y protocol hwn a bydd yn parhau mewn grym oni fydd angen newid unrhyw adran neu oni fydd unrhyw adran yn amherthnasol mwyach.

Deellir y gall fod gan y Partïon anghenion gwahanol o ran diogelwch, ond mae'n bwysig y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau y caiff gwybodaeth ei chadw a'i rhannu'n breifat a chyfrinachol bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 22 o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Disgwylir i'r naill Barti a'r llall gydymffurfio â'u Polisi Diogelwch Gwybodaeth a'i gweithdrefnau gweithredu eu hunain a rhoi gwybod i'w staff am eu rhwymedigaethau yn hyn o beth.

## 1. Llwybrau cyfathrebu allweddol rhwng AGIC a HCPC

Mae gan AGIC a HCPC strwythurau gwahanol. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pwynt cyswllt clir bob amser, ac er mwyn cofnodi achosion o rannu gwybodaeth rhwng y ddau sefydliad yn effeithiol, dylai'r naill sefydliad a'r llall ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol:

- Pan fydd HCPC yn cysylltu ag AGIC (y Tîm Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg): HIW.PIM@gov.wales
- Pan fydd AGIC yn cysylltu â HCPC (y Tîm Sicrwydd a Datblygu): ad@hcpc-uk.org.

Dylai'r cyfeiriadau e-bost gael eu defnyddio i ofyn am wybodaeth ac i atgyfeirio pryderon. Mae'r cyfeiriadau e-bost hefyd yn elfen bwysig o'r ffordd y caiff y broses o rannu gwybodaeth ei monitro a'r ffordd y caiff canlyniadau ac effeithiolrwydd y gydberthynas eu gwerthuso. Os oes cydberthynas uniongyrchol eisoes yn bodoli rhwng AGIC a HCPC mewn perthynas â mater, gall y staff e-bostio unigolion cyswllt yn uniongyrchol, ond dylent hefyd anfon copi i'r cyfeiriad e-bost perthnasol.

## 2. Pryd a sut y caiff gwybodaeth ei rhannu

Bydd AGIC a HCPC yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd drwy weithgareddau wedi'u trefnu, ac fel yr amlinellir isod pan fydd angen ymateb i bryderon brys a ddaw i'r amlwg.

### Pryderon brys neu bryderon a ddaw i'r amlwg

Rhaid i bryderon brys neu bryderon a ddaw i'r amlwg a all beryglu diogelwch pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd a lle yr ystyrir bod y pryderon hynny'n berthnasol i swyddogaethau rheoleiddio'r sefydliad arall, gael eu rhannu'n brydlon.

Mae gwybodaeth i staff AGIC a HCPC yn esbonio pryd a sut i wneud atgyfeiriad at y sefydliad arall i'w gweld yma.

### Gwybodaeth i staff AGIC ar wneud atgyfeiriadau at HCPC

Mae HCPC yn rheoleiddio'r gweithwyr proffesiynol canlynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol:

| | |
|---|---|
| Ciropodyddion / podiatryddion | Ffisiotherapyddion |
| Deietegwyr | Radiograffyddion |
| Fferyllwyr teclynnau clyw | Seicolegwyr ymarferol |
| Gwyddonwyr clinigol | Prosthetyddion / Orthotyddion |
| Gwyddonwyr biofeddygol | Parafeddygon |

| | |
|---|---|
| Therapyddion celf | Orthoptyddion |
| Therapyddion galwedigaethol | |
| Ymarferwyr adrannau llawdriniaethau | Therapyddion lleferydd ac iaith |

Mae gan bob un o'r proffesiynau hyn o leiaf un teitl proffesiynol a ddiogelir gan y gyfraith, gan gynnwys y rhai a nodir uchod. Golyga hyn ei bod yn rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio'r teitlau fod wedi'i gofrestru â HCPC. Gellir gweld statws cofrestru unigolyn drwy chwilio'r Gofrestr ar wefan HCPC: HCPC - Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal - Y Gofrestr.

**Pa bryderon sy'n briodol?**

Unigolion anghofrestredig – bydd yn briodol atgyfeirio pryder at HCPC pan fyddwch yn amau bod unigolyn yn defnyddio teitl a ddiogelir (neu'n awgrymu ei fod yn aelod o un o'r proffesiynau) er nad yw wedi'i gofrestru â HCPC. Mae rhagor o ganllawiau ar ddiogelu teitl (camddefnyddio teitl) i'w gweld ar wefan HCPC: HCPC – Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal – Diogelu teitl.

Unigolion cofrestredig – bydd yn briodol atgyfeirio pryder at HCPC pan fydd ymddygiad, perfformiad neu iechyd unigolyn sydd wedi'i gofrestru â HCPC yn codi problemau posibl ynglŷn â'i addasrwydd i ymarfer. Bydd unigolyn cofrestredig yn ‘addas i ymarfer’ pan fydd ganddo'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymeriad i gyflawni ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae rhagor o ganllawiau ar godi pryder am unigolyn cofrestredig i'w gweld ar wefan HCPC: https://www.hcpc-uk.org/concerns/raising-concerns/.

Addasrwydd amgylcheddau dysgu – bydd yn briodol atgyfeirio pryder at HCPC pan fydd ansawdd sefydliad gofal iechyd yn bwrw amheuaeth ar ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu i fyfyrwyr ar gyfer unrhyw rai o'r proffesiynau a reoleiddir gan HCPC. Bydd amgylchedd yn addas i raglen gymeradwy ei ddefnyddio pan fydd yn bodloni gofynion ein safonau addysg a hyfforddiant. Mae rhagor o ganllawiau ar godi pryder am amgylchedd dysgu i'w gweld ar wefan HCPC: HCPC - Codi pryder am raglen gymeradwy.

Dylech ystyried y rhesymau dros atgyfeirio eich pryderon a'u trafod â'ch rheolwr neu'ch Pennaeth Cangen yn gyntaf. Mae'n bwysig canfod y canlynol:

- a oes camau wedi cael eu cymryd yn lleol;
- a yw'r sefydliad neu'r asiantaeth sy'n cyflogi'r unigolyn eisoes wedi ymchwilio i'r pryder neu yn y broses o wneud hynny;
- a yw'r sefydliad neu'r asiantaeth sy'n cyflogi'r unigolyn eisoes wedi gwneud atgyfeiriad at HCPC.

Ni ddylai camau lleol nac atgyfeiriad sydd eisoes wedi'i wneud atal AGIC rhag gwneud atgyfeiriad at HCPC. Bydd prosesau HCPC yn aml yn mynd rhagddynt ochr yn ochr ag unrhyw gamau lleol. Os oes atgyfeiriad eisoes wedi'i wneud, gall gwybodaeth ychwanegol fod yn ddefnyddiol i ategu unrhyw ymchwiliad.

Gallwch hefyd ofyn am gyngor gan Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gweler Atodiad B).

Pan fyddwch wedi penderfynu atgyfeirio pryder at HCPC, dylech lenwi ffurflen ‘rhoi gwybod am bryder ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer’ HCPC a'i hanfon at Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gweler Atodiad B). Dylai HCPC roi adborth drwy roi gwybod i Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gaiff unrhyw gamau eu cymryd. Os bydd HCPC yn cymryd camau, bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth am y camau a'r canlyniad terfynol.

**Gwybodaeth i staff HCPC am wneud atgyfeiriadau at AGIC**

Diben sefydliadol AGIC yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.  Gwneir hyn drwy reoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella.

Gall pryderon am systemau yn ymwneud â diogelwch cleifion, ansawdd gofal neu arferion addysg a hyfforddiant ddod i'r amlwg yn ystod ymchwiliad addasrwydd i ymarfer neu arolygiadau addysg a gynhelir mewn perthynas ag unigolion cofrestredig neu sefydliadau addysg yng Nghymru.

Os ydych yn ansicr a ddylid atgyfeirio pryder am systemau at y Tîm Gweithrediadau er mwyn iddo ystyried ei atgyfeirio at AGIC, dylech holi eich rheolwr.

| Cam | Gweithgaredd |
|---|---|
| 1 | Un o swyddogaethau HCPC (er enghraifft, rheoli achosion neu Banel) yw nodi mater y gall fod angen ei atgyfeirio at AGIC. Caiff y mater ei anfon i gyfeiriad e-bost y Tîm Sicrwydd a Datblygu: ad@hcpc-uk.org. |
| 2 | Bydd Dadansoddwr Sicrwydd a Datblygu yn bwrw golwg dros y wybodaeth cyn gynted â phosibl ac yn argymell i Reolwr Sicrwydd a Datblygu a oes angen atgyfeiriad ai peidio. |
| 3 | Os bydd y Rheolwr Sicrwydd a Datblygu yn penderfynu y dylid gwneud atgyfeiriad, dylai Dadansoddwr Sicrwydd a Datblygu wneud atgyfeiriad drwy e-bost at Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gweler Atodiad B). |
| 4 | Dylai AGIC roi adborth drwy roi gwybod i Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gaiff unrhyw gamau eu cymryd. Os bydd AGIC yn cymryd camau, bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth am y camau a'r canlyniad terfynol. |

Caiff yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau HCPC ynglŷn ag atgyfeiriadau at AGIC eu hychwanegu at yr achos ar y system berthnasol. Hefyd, dylai unrhyw adborth neu ddiweddariadau a gaiff HCPC gan AGIC am atgyfeiriad penodol gael eu hychwanegu at yr achos ar y system.

Bydd HCPC yn cadw trywydd archwilio ar wahân ar gyfer yr atgyfeiriadau a wneir ganddo at AGIC a chanlyniad yr atgyfeiriadau hynny. Felly, gall adrodd ar yr atgyfeiriadau a wneir ganddo. Caiff yr adroddiadau eu trafod fel y bo'n briodol mewn fforymau priodol yn HCPC.

### Rhannu gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer

Mae HCPC yn ymrwymedig i rannu'r wybodaeth a gyhoeddir ganddo am addasrwydd unigolion sydd wedi'u cofrestru ag AGIC i ymarfer. Caiff gwybodaeth am iechyd unigolyn cofrestredig ei chadw'n gyfrinachol bob amser.

Bydd HCPC yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan allanol am wrandawiadau sydd i ddod, gan gynnwys manylion am bryderon (https://www.hcpts-uk.org/hearings/upcoming) a bydd hefyd yn cyhoeddi amserlen i'r cyfryngau o wrandawiadau addasrwydd i ymarfer (https://www.hcpts-uk.org/hearings/mediareleases).

Yn ogystal â hynny, bydd HCPC yn cyhoeddi gwybodaeth am y sancsiynau a roddir ganddo pan benderfynir nad yw unigolion cofrestredig yn addas i ymarfer (https://www.hcpts-uk.org/hearings/recentdecisions).

Mae HCPC yn cytuno i rannu gwybodaeth fanylach pan fydd AGIC yn gofyn am hynny. Dylid anfon ceisiadau am wybodaeth at Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn HCPC.

Bydd AGIC yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar ganfyddiadau ei ymweliadau arolygu. Mae AGIC yn cytuno i rannu gwybodaeth fanylach i ategu'r canfyddiadau hynny pan fydd HCPC yn gofyn am hynny. Dylid anfon ceisiadau am wybodaeth at Swyddog Arweiniol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn AGIC.

### Tystiolaeth i bwyllgorau seneddol: llywodraeth ganolog

Pan fo'n briodol (ac yn amodol ar y rheolau safonol ar wrandawiadau ac ymrwymiadau seneddol), bydd AGIC a HCPC yn rhannu manylion â'i gilydd am dystiolaeth a roddir i unrhyw bwyllgorau seneddol mewn perthynas â gweithrediad y gyfundrefn reoleiddio neu'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau.